Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

SWYDDOGOL – SENSITIF
SEFYDLIADOL A MASNACHOL

# Trafodaeth ford gron y Pwyllgor Dethol

**Dyddiad: 22 Ebrill 2026, Amser: 1pm-3pm**
**Lleoliad: Ystafell 119 y Ganolfan Reoli Strategol, Pencadlys Heddlu Dyfed-Powys**
**Cadeiriwyd y cyfarfod gan: Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dafydd Llywelyn**

| | |
|---|---|
| **Aelodau** | • Dafydd Llywelyn, Comisiynydd Heddlu a Throseddu (CHTh) (Cadeirydd)<br>• Alison Perry, Cyfarwyddwr Comisiynu a Phartneriaeth (Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh))<br>• Caroline Wheeler, aelod o'r Cyd-bwyllgor Archwilio<br>• Davinia Davies, aelod o'r Panel Datrysiadau Tu Allan i'r Llys<br>• Helen Thomas, Aelod Annibynnol o Banel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys |
| **Hefyd yn bresennol** | • Gwyneth Ayres, Rheolwr Polisi Corfforaethol, Perfformiad a Phartneriaeth (Cyngor Sir Caerfyrddin)<br>• Gethin Jones, Rheolwr Corfforaethol Gwasanaeth Ieuenctid (Cyngor Sir Ceredigion)<br>• Uwch-arolygydd Chris Neve, Heddlu Dyfed-Powys (Heddlu Dyfed-Powys)<br>• Bethan James, Rheolwr Rhaglen Ysgolion yr Heddlu (Heddlu Dyfed-Powys)<br>• Sarah Francis, Cynghorydd Polisi (SCHTh)<br>• Ditectif Uwch-arolygydd Llyr Williams (Heddlu Dyfed-Powys)<br>• Prif Arolygydd Melanie Havard (Heddlu Dyfed-Powys)<br>• Hannah Hyde, Cynghorydd Polisi (SCHTh)<br>• Ellen Jones, Gweithiwr Achos Ansawdd Gwasanaeth (SCHTh) |
| **Ymddiheuriadau** | • Llysgennad Ieuenctid, Bradley Cole<br>• Gill Adams, Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro: Plant a Theuluoedd (Cyngor Sir Caerfyrddin) |

| | |
|---|---|
| | • Timothy Bray, Rheolwr Partneriaethau ac Argyfyngau Sifil Ceredigion (Cyngor Sir Ceredigion)<br>• Sinéad Henehan, Rheolwr Diogelwch Cymunedol, Tlodi ac Adfywio Sir Benfro (Cyngor Sir Benfro)<br>• Steve Davis, Prif Swyddog Addysg Ieuenctid a Chymunedol (Cyngor Sir Benfro)<br>• Fay Smith, Rheolwr Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Powys ac Argyfyngau Sifil (Cyngor Sir Powys)<br>• Oliver King, Rheolwr Tîm, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (Cyngor Sir Powys)<br>• Prif Uwch-arolygydd Steve Davies (Heddlu Dyfed-Powys) |

*Mae'r nodiadau hyn yn rhoi crynodeb o'r trafodaethau a'r camau gweithredu a osodwyd.*

## 1. Ymddiheuriadau, cyflwyniadau a throsolwg

Croesawodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu bawb i'r drafodaeth ford gron, gwnaed cyflwyniadau, a chyflwynwyd ymddiheuriadau.

Ategwyd diben adolygiad y Pwyllgor Dethol, a myfyriodd y CHTh ar effeithiolrwydd y dull hwn o weithgarwch craffu. Cytunwyd bod y term 'Pwyllgor Dethol' wedi effeithio ar gyfranogiad partneriaid.

Dywedodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu wrth y rheini a oedd yn bresennol y bydd y gweithgarwch craffu a wneir gan y Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu, wrth symud ymlaen, yn cyd-fynd ag awdurdod y Comisiynydd Heddlu a Throseddu i gynnull partneriaid i gydweithio ar fentrau atal troseddu a diogelwch cymunedol[1], gan gymryd ffurf debyg i gyfarfod heddiw, sef proses ford gron amlasiantaeth.

## 2. Prosiect Atal, Ymyrraeth ac Ymgysylltu Heddlu Dyfed-Powys

Rhoddodd yr Uwch-arolygydd Chris Neve yr wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni a oedd yn bresennol am waith y Prosiect Atal, Ymyrraeth ac Ymgysylltu.

[1] Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 – Nodiadau Esboniadol

**Cam gweithredu 20: Bydd y Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn cydlynu diweddariad ar y Prosiect Atal, Ymyrraeth ac Ymgysylltu ar gyfer y Panel Heddlu a Throseddu.**

**Cam gweithredu 21: Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu i gydlynu presenoldeb y Comisiynydd Heddlu a Throseddu/Heddlu Dyfed-Powys yng nghyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol tua mis Medi/Hydref 2026 i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am adolygiad y Pwyllgor Dethol a'r Prosiect Atal, Ymyrraeth ac Ymgysylltu.**

## 3. Canfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad

Cyflwynodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu bob un o argymhellion yr adolygiad yn eu tro, gan ddarparu manylion y canfyddiadau a'r dystiolaeth a arweiniodd at ddrafftio'r argymhelliad.

Trafododd y rhieni a oedd yn bresennol bob argymhelliad, gan gynnig rhai newidiadau i'r geiriad, yn ogystal ag argymhellion/meysydd ffocws ychwanegol.

**Cam gweithredu 22: Y gweithgor i ddiweddaru'r adroddiad a'r argymhellion fel y cytunwyd yn y drafodaeth ford gron.**

Myfyriodd aelod o’r Pwyllgor Dethol ar y defnydd o’r term ‘pobl ifanc’ i gynrychioli pobl rhwng 18 a 25 oed. Awgrymwyd, i'r cyhoedd, y byddai hyn yn golygu'r sawl dan 18 oed, efallai pobl rhwng 10 a 18 oed. Cytunwyd, gan mai oedolion yw'r garfan sy'n destun yr adolygiad hwn, y dylid defnyddio'r term 'oedolion ifanc' yn lle 'pobl ifanc' yn yr adroddiad cyhoeddedig a'r dogfennau cysylltiedig.

**Cam gweithredu 23: Gweithgor i olygu adroddiad y Pwyllgor Dethol a'r ddogfen atodiadau cysylltiedig sy'n adlewyrchu'r penderfyniad i ddefnyddio'r term 'oedolion ifanc' yn lle 'pobl ifanc' i gynrychioli'r garfan rhwng 18 a 25 oed.**

## 4. Camau nesaf

Bydd yr adroddiad a'r argymhellion yn cael eu cwblhau, eu cyhoeddi ar wefan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, a'u rhannu'n uniongyrchol â'r holl randdeiliaid perthnasol gan gynnwys y Panel Heddlu a Throseddu.

Bydd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a thîm Prosiect Atal, Ymyrraeth ac Ymgysylltu Heddlu Dyfed-Powys yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bartneriaid am y ddau ddarn o waith.

Yna bydd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn gofyn am ddiweddariadau gan y rheini sy'n destun argymhellion yr adolygiad chwe mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad.